OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES

# Eiriolaeth a Chyngor

Hawdd ei Ddarllen

# Cyflwyniad

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn sefydliad annibynnol sy’n delio â chwynion am y canlynol:



- gwasanaethau cyhoeddus - gwasanaethau sy’n cael eu darparu gan sefydliad sy’n rhan o’r llywodraeth



- cynghorwyr lleol - pobl sy’n cael eu dewis i redeg cyngor.




Mae’r wybodaeth hon yn esbonio pa gymorth a chyngor sydd ar gael i chi os ydych chi eisiau cwyno.

# Help a chyngor




Pan fyddwch chi'n cwyno am wasanaeth cyhoeddus neu gynghorydd, ein gwaith ni yw edrych ar beth sydd wedi digwydd.



Allwn ni ddim:

- rhoi cyngor i chi ar y rheswm dros eich cwyn



- siarad ar eich rhan pan fyddwch chi'n gwneud cwyn.



Fe allwn ni roi gwybod i chi am wasanaethau sy'n gallu rhoi help a chyngor i chi am wneud cwyn.

## Gwasanaethau Cynghori

Mae gwahanol fathau o wasanaethau cynghori sy’n gallu'ch helpu chi i wneud cwyn.



Er enghraifft, gallai un gwasanaeth eich helpu chi gyda chŵyn am wasanaeth iechyd. Gallai gwasanaeth arall eich helpu chi i gwyno am fater sy’n ymwneud â chynllunio.



Efallai bydd gwasanaethau cynghori’n gallu’ch helpu chi dros y ffôn neu drefnu i gwrdd â chi yn eu swyddfa.

## Gwasanaethau eirioli



**Eiriolwr** yw rhywun sy'n gallu'ch helpu chi i ddweud eich dweud, neu siarad ar eich rhan.



Mae gwahanol sefydliadau sy'n cynnig gwasanaethau eirioli.



Os ydych chi'n cael cymorth gan sefydliad i'ch helpu chi i fyw'n annibynnol, gallwch chi ofyn iddyn nhw a ydyn nhw'n cynnig gwasanaeth eirioli.



Bydd rhai gwasanaethau eirioli'n eich helpu chi i baratoi ar gyfer gwneud cwyn.

Bydd gwasanaethau eraill yn eich helpu chi pan fyddwch chi'n gwneud cwyn hefyd, neu'n gwneud cwyn ar eich rhan.

# Mwy o Wybodaeth



Dyma rywfaint o fanylion cyswllt ar gyfer gwasanaethau sy’n gallu’ch helpu chi i wneud cwyn.

## Cyngor ar Bopeth Cymru

Maen nhw’n rhoi cyngor am ddim i chi ar eich hawliau, y gyfraith, arian a phroblemau eraill. Gallan nhw eich helpu chi i ddod o hyd i wasanaeth eirioli:





Ffôn:
**03444 772 020**

Gwefan:
**www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/**

## Cynghorau Iechyd Cymuned

Mae ganddyn nhw eiriolwyr sy'n gallu'ch helpu chi i gwyno am eich meddyg (GP), deintydd, fferyllydd neu'ch Bwrdd Iechyd lleol.

Gallwch chi ddod o hyd i'ch Cyngor Iechyd Cymuned agosaf drwy gysylltu â'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned:




Ffôn:
**0845 644 7814**

Gwefan:
**www.wales.nhs.uk/cym**

## Cymorth Cynllunio Cymru

Maen nhw'n rhoi cyngor ar gynlluniau ar gyfer adeiladau a ffyrdd newydd:




Ffôn:
**02920 625 004**

Gwefan:
**www.planningaidwales.org.uk/?lang=cy**

## MIND Cymru

Maen nhw’n rhoi cymorth a chyngor ar faterion iechyd meddwl:




Ffôn:
**029 2039 5123**

Gwefan:
**www.mind.org.uk**

## Gingerbread

Maen nhw’n rhoi cymorth a chyngor i rieni sengl:




Ffôn:
**0808 802 0925**

Gwefan:
**www.gingerbread.org.uk**

## Advocacy Matters Wales

Maen nhw'n helpu oedolion ag anableddau dysgu neu syndrom Asperger:




Ffôn:
**02920 233 733**

Gwefan:
**www.advocacymatterswales.co.uk**



Mae dolenni i fwy o wasanaethau cynghori ac eirioli ar gael ar ein gwefan:
**[www.ombwdsmon.cymru](www.ombwdsmon.cymru)**

# Mwy o wybodaeth




Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch chi, cysylltwch â ni:

Ffôn:
**0300 790 0203**




E-bost:
**holwch@ombwdsmon.cymru**



Gwefan:
**www.ombwdsmon.cymru/**



Post:
**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru,**
**1 Ffordd yr Hen Gae**
**Pencoed**
**CF35 5LJ**